

Gofid ^{*†}

Eisteddai Begw ar stôl o flaen y tân, a'i chefn, 7
i'r neb a edrychai arno, yn dangos holl drychineb
y bore. Cyffyrddai ymylon ei siôl dair onglog
â'r llawr, a'r llawr yn llawn o byllau mân
yn disgyn oddi wrth facsiau eira ag ôl pedolau
clocsiau ynddynt. Heddiw, yn wahanol i arfer, yr

*Te yn y Grug: Cyfrol o Storiâu Byrion / Kate Roberts.

†Typing: Jehuda Ronen <rumpelstilzchen@gmail.com, digitalwords.net>. Please send corrections by email.

oedd ei gwallt yn flêr, a hongiai'n gynhinion di
- drefn ar ei hysgwydd. Am ryw reswm na
wyddai Begw, ni phlethasai ei mam ei gwallt nei-
thiwr. Yr oedd hynny'n beth braf, oblegid byddai
ei mam yn tynnu ei gwallt bron o'r gwraidd
wrth ei blethu, gyda holl wydnwch ei breichiau a
holl rym y dymer y byddai ynnddi. Byddai ei
phen yn ysu am oriau ar ôl y driniaeth, ond
byddai'n braf yn y bore, ar ôl datod y plethi,
gael teimlo'r trwch tonnog yn disgyn heibio i'w
chlustiau ac ar ei gwddf. Chwythai'r gwynt oer
o dan y drysau gan chwythu rhidens y siôl
a mynd dan ei thrywsus pais, ond âi gwres
y tân at ei phen.

O fewn pedair blynedd ei phrofiad ar y ddaear
dyma'r diwrnod mwyaf digalon a gawsai Begw eri-
oed — diwrnod du, diobaith er bod pob man
yn wyn. Cronnai ei hanadl wrth geisio dal ei
hocheneidiau'n ôl. Yr oedd arni ofn cael drwg
gan ei mam, fel y câi bob asmer am ddal
i grio. Ond daeth llais ei mam yn fwynach
nag arfer y tro hwn.

'Dyna chdi rwan. Waeth befo hi. Dim ond cath
oedd hi. Beth tasat ti wedi colli dy fam?'

Torrodd yr argae wedyn. Ar y funud buasai'n 8
well ganddi hi golli ei mam na cholli Sgiatan.
Yr oedd Sgiatan yn ffeind bob asmer a'i mam

ddim ond ambell dro. Daeth yr hyn a welsai
hanner awr yn gynt i'w meddwl yn ei holl
fanylion a'i gorchfygu eto. Wrth godi'r bore hwnnw,
edrychasai Begw ymlaen at ddiwrnod - gwahanol -
i - arfer, am fod eira mawr hyd y ddaear,
un o'r dyddiau hynny pan gâi dynnu'r llyfr â'r
lluniau ofnadwy a'i roi ar y setl, un o'r dy-
ddiau pan gâi wisgo ei hesgidiau gorau, diwrnod
tebyg i'r un pan gafodd wlanen a saim gŵydd
am ei gwddf a chael brechdan grasu â dŵr
a siwgr a sunsur arni, un o'r dyddiau pan
eisteddai ei mam wrth y tân i adrodd stori
wrthi. Paratoad i'r diwrnod - gwahanol - i -
arfer oedd peidio â chael plethu ei gwallt y

noson gynt. Parhad o hyn oedd cael gwisgo am-
dani cyn ei 'molchi a tharo siôl drosti.

Pan gododd, nid oedd Sgiatan o gwmpas yn un-
lle, ac er gweiddi "Pws, Pws," ni ddaeth o
unman. Toc, mentrodd agor drws y cefn a dyna
lle'r oedd Sgiatan — nid ar garreg y drws
yn codi ei chynffon ac yn barod i'w rhwbio
ei hun yn ei choesau, ond yn gorwedd mewn
crwc o ddŵr, ei phedair coes wedi ymestyn al-
lan fel y byddent weithiau ar fatyn yr aelwyd
ond ei dannedd yn ysgyrnygu fel yr hen ani-
fail hyll hwnnw yn y 'Drysorfa'r Plant', a'i blew,
ei blew melfed, fel hen falwen seimllyd ar lwybr

yr ardd, a'i llygaid mor llonydd a rhythlyd â
llygaid swydr ei dol. Ni allai gredu ei bod
yn bosibl i Sgiatan, a ganai'r grwndi efo hi
cyn iddi fyned i'w gwely neithiwr a wincio arni
oddi ar y stôl haearn, fod wedi—. Ni allai 9
ddweud y gair. Yr oedd yn rhy ofnadwy. Ie,
ond wedi marw yr oedd, nid oedd yn rhaid
i neb ddweud wrthi mai dyma beth oedd marw.
Yr oedd hi fel y llygoden a aeth i'r trap.
'Cau'r drws yna, a thyrd i'r tŷ, mae hi'n oer.'
Ei mam yn galw arni, ond sut yr oedd yn
bosibl dyfod i'r tŷ. Llygad - dynnid hi at
y corff marw. Yr oedd arni ei ofn ac yr

oedd arni eisiau rhedeg oddi wrtho, ond hoelid
hi wrth y ddaear i edrych arno. Tywynnai'r haul
yn danbaid ar wynder ar eira, a disgynnai'r daf-
nau parhaus oddi ar y bondo ar ei phen. Yr
oedd mwclis gwydr yr eiria yn estyn crafangau
hir allan i dynnu'r dŵr o'i llygaid a'i lly-
gaid bron â mynd ar ôl y dagrau. Ond ni
fedrai symud. Pan ddaeth llais ei mam yr eil-
dro, caeodd y drws a thu ôl i'w dywyllwch
y teimlodd bang gyntaf y cau drysau a fu yn
ei bywyd wedyn.

Ei bwriad cyntaf oedd mynd yn ôl i'w gwely
er mwyn cael crio'n iawn a rhoi ei phen o

dan y dillad. Pe rhoddai ei phen o dan y
dillad a chau ei llygaid, byddai yno dywyllwch a
dim byd ac ni fedrai weld Sgiatan yn ysgyrnygu
ei dannedd.

'D'wyt ti ddim i fynd i'r siamber yna yn dy
glocsiai,'

'O, diar, yr oedd bywyd yn galed. ' 'D' wyt
ti ddim i wneud hyn, 'd'wyt ti ddim i wneud
y llall.' A dim Sgiatan i rwbio'i phen yn ei
choesau. Aeth at y tân o lech i lwyn, eistedd
ar y stôl a beichio crio.

'Taw â chlegar,' oddi wrth ei thad. Clegar —

clegar — hen air hyll. Ei thad yn defnyddio
hen air fel yna a Sgiatan wedi — wedi —
marw!

Cododd i nôl ei doli bren a lapiodd ei siôl 10
amdani. Criodd gymaint am ei phen nes y rhe-
dodd y paent ac i'w cheg. Ceisiai ei swatio
yn ei chesail, ond sut oedd modd magu hen
beth caled felly ar ôl magu peth mor esmwyth
â Sgiatan a edrychai mor ddigri â'i phen al-
lan o'r siôl? Wrth gofio hynny wedyn, taflodd
y ddol i lygad y tân. Buasai wrth ei bodd
yn ei gweld yn fflamio — y ddol yn cael
mynd i'r 'tân mawr' ac nid Begw — y hi

a'i hen wyneb paent, hyll. Cipiodd ei mam hi
o'r fflamau ond nid cyn rhoi clustan iawn i'w
merch. Aeth y crio'n sgrechian.

'Wel, wir, 'd wn i ddim beth wna i efo'r
plentyn yma.'

'Eisio chwip din iawn sydd arni,' meddai ei thad.

'Mi allasach chitha feddwl ddwywaith cyn boddi'r
gath. 'D wn i ddim beth ydi rhyw ysfa rhoi
cath mewn bwced sydd ynoch chi o hyd, cyn
gynted ag y gwnaiff hi rywbeth.'

Felly ei thad a wnaeth. Cododd Begw ac aeth
i ben y sofffa ac edrych allan. Yr oedd y

ddaear i gyd yn fwclis, a'r coed yn estyn
bysedd hirion, gwynion tuag atynt. Swatiai'r ieir yng
nghornel yr ardd â'u pennau yn eu plu, yr
un fath yn union ag y stwffiai hithau ei phen
i'w bwa blewog yn y capel ar fore Sul oer.
Yr oedd hen Jac Do mawr du yn pigo as-
gwrn yn yr eira a lot o adar gwynion fel
gwyddau ymhobman. Ar hyd pen y clawdd yr
oedd cris - croes ôl traed yr ieir. Rhedai
ei llygaid ar ôl yr eira yn bell bell. Yr
oedd fel crempog fawr a lot o dyllau ynddi
a chyllell ddur las rhyngddi a Sir Fôn. Ond
yr oedd ei phen yn troi wrth edrych arni ac
yr oedd ei llygaid am ddyfod allan o'i phen 11

o hyd. Dechreuodd y grempog godi rownd ei
hymyl a chychwyn tuag ati. Syrthiodd Begw ac
ni wyddai ddim wedyn ond ei bod ar lin ei
mam, ei phen yn gorwedd ar wlanen arw ei
bodis, a'r gadair yn siglo ôl a blaen, blaen
ac ôl. Agorodd Begw fotymau'r bodis, a rhoes ei
llaw oer ar fron gynnes ei mam. Gyda chil ei
llygad gallai weled ei thad ac wrth ei gysylltu
â'i gofid caeodd ei llygaid yn sydyn, a thoc
aeth i gysgu.

Gwenai'r hen ddoli nain drwy ei sbectol o'r cw-
pwrdd gwydr ar y tri, daliai'r llong ar ben y
cloc i daro ei gwegil yn y môr ar un ochr

ac u foesymgrymnu i'r môr yr ochr arall, ac
edrychai'r pregethwr yn sarrug iawn o'i ffrâm ar
y pared.

Y noson honno, deffroes Begw yn ei gwely ryw-
dro yng nghanol y nos fawr. Agorodd ei llygaid
ar y blanced ddu o dywyllwch. Ni allai ddweud
ym mha le'r oedd y ffenestr na'r drws. Rhaid
ei bod ymhell ar y nos, oblegid ni ddeuai
golau'r tân i mewn drwy ddrws y siamber. Ni
chlywai Begw ddim ond sŵn anadl ei mam —
'pw — pw' o hyd. Ond yn sydyn o'r tywyll-
wch dyma rywbeth yn neidio o'r llawr ar y
gwely ac yn ôl drachefn yr un mor sydyn.

Cyffyrddodd eiliad â bodiau ei thraed ac yna di-
flannodd i'r distawrwydd. Sgiatan wedy dŵad yn ôl,
meddyliai Begw wrthi hi ei hun. Ond er holi
a holi drannoeth, ni chafodd unrhyw eglurhad ar
y mater, dim ond pawb yn gwneud hwyl am
ei phen a gwrthod ei chredu, 'am ei bod yn
dychmygu pethau'.